

apc

THE ALLIANCE FOR THE
PROTECTION OF COPYRIGHT

Cod Ymarfer APC

ar gyfer cyflwyno cynigion am ffilmau a rhaglenni i'r diwydiant ffilm, radio a theledu
yn y DU

Sefydliadau cyfrannog sydd wedi mabwysiadu Cod Ymarfer APC

AETNUK

BECTU

Y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig

Channel Four Television

Channel 5 Broadcasting Limited

Directors UK

ITV Network Limited

Undeb y Cerddorion

Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr

PACT

Radio Independents Group

Cymdeithas yr Awduron

Menywod mewn Ffilm a Theledu

Urdd Awduron Prydain

S4C

Hawlfraint © 2009 APC

Hawlfraint © 2010 y fersiwn Gymraeg S4C

Cod Ymarfer APC

Cyflwyniad 2

Diben Cod Ymarfer APC
Beth mae'r Cod yn ei gwmpasu?
I bwy y mae'r Cod yn berthnasol?

Y Cod 4

Amcanion	4
Rhwymedigaethau'r rhai sy'n cyflwyno cynigion	4-5
Rhwymedigaethau'r rhai sy'n cael cynigion	6
Cynigion mewnol	7
Datblygu cynnig	7
Gweithdrefnau i'w dilyn yn ystod anghydfod	8-9
Adolygu	9

Cyflwyniad

Diben Cod Ymarfer APC ('y Cod')

- Annog llif digyfngiad syniadau a chynigion o fewn y sector ffilm a'r sector darlledu, a chynnig hyder i'r rhai sy'n cyflwyno cynigion o'r fath.
- Cynnig canllawiau ymarferol ynghylch sut i gyflwyno cynigion am ffilmiau a rhaglenni (gan gynnwys ar gyfer cynnwys rhyngweithiol ac ar-lein) i gwmnïau ffilm, cwmnïau darlledu a chwmnïau cynhyrchu.
- Nodi rhwymedigaethau'r rhai sy'n cyflwyno'r cynigion am ffilmiau a rhaglenni teledu a radio.
- Esbonio'r hyn i'w wneud os bydd anghydfod yn codi.

Beth mae'r Cod yn ei gwmpasu?

- Unrhyw gynnig am ffilmiau a rhaglenni teledu a radio a allai gynnwys fformatau, triniaethau, sgriptiau, amlinelliadau, dogfennau datblygu, cyflwyniadau tendro, amlinelliadau stori, gwaith celf a chrynodebau a anfonir at ddarledwr neu gwmni cynhyrchu neu gwmni ffilm, gyda'r diben o geisio datblygu'r cynnig a/neu wneud ffilm neu raglen ohono er mwyn ei darlledu.

- Rhaid i'r cynnig fod mewn ffurf barhaol, boed hynny'n electronig neu ar ffurf copi caled. Nid yw'r Cod yn berthnasol i syniadau (oni bai eu bod yn cael eu hymrwymo i ryw ffurf parhaol) neu gyflwyniadau llafar.
- Rhaid i unrhyw gynnig ymwneud â gwaith gwreiddiol at ei gilydd, y mae'r person sy'n ei gyflwyno yn berchen arno a/neu'n ei reoli, ac ni ddylai dorri amodau hawlfraint gwaith rhywun arall neu ni ddylai'r cam o'i anfon fod yn torri unrhyw amodau cyfrinachedd.

I bwy y mae'r Cod yn berthnasol?

- Y sefydliadau cyfrannog hynny sy'n cael cynigion am ffilmiau a rhaglenni teledu a radio yn y DU, gan gynnwys prif ddarlledwyr y DU, aelodau PACT a chwmnïau ffilm a chwmnïau cynhyrchu eraill y maent wedi mabwysiadu neu y maent wedi cydnabod yr egwyddorion a'r arfer gorau sy'n ymddangos yn y Cod.
- Unrhyw unigolyn neu gwmni sy'n creu neu sy'n llunio cynigion am ffilmiau a rhaglenni teledu a radio ac sy'n dymuno cynnig cynigion o'r fath i ddarlledwr neu gwmni ffilm neu gwmni cynhyrchu. Mae'r Cod yn ymestyn y tu hwnt i unigolion neu gwmnïau proffesiynol, i unrhyw un sy'n cyflwyno cynigion, er mwyn sicrhau dull gweithredu teg a chyson ac arfer gorau ar draws y diwydiant.

Y Cod

Amcanion

Prif amcanion y Cod yw sicrhau bod cynigion am ffilmiau a rhaglenni teledu a radio yn cael eu trin mewn ffordd deg a thryloyw, gan leihau'r tebygolrwydd y bydd anghydfodau yn codi ynghylch perchnogaeth a datblygiad unrhyw gynig am ffilm neu raglen.

Rhwymedigaethau'r rhai sy'n cyflwyno cynigion

2.1 Dylai'r rhai sy'n cyflwyno cynnig ddilyn unrhyw weithdrefnau cyflwyno a gyhoeddwyd gan y derbynnydd(derbynyddion) perthnasol, neu yn absenoldeb unrhyw weithdrefnau a gyhoeddwyd, dylent gyflwyno cynnig ysgrifenedig mewn ffurf barhaol neu electronig, gan nodi unrhyw nodweddion gwreiddiol yn eglur.

2.2 Pryd bynnag y bo modd, dylai'r rhai sy'n cyflwyno cynnig ymrwymo i'r canlynol hefyd:

2.2.1 Darparu cymaint o fanylder ag y bo modd am bob cynnig er mwyn cynorthwyo'r rhai sy'n ei gael i'w adolygu mewn ffordd mor wrthrychol a theg ag y bo modd.

2.2.2 Nodi yn ysgrifenedig bod y cynnig yn cael ei gyflwyno yn gyfrinachol.

2.2.3 Nodi yn ysgrifenedig a yw wedi cael ei anfon at unrhyw ddarlledwr neu gwmni ffilm neu gwmni cynhyrchu arall.

2.2.4 Cadw copi o'r union gynnig a gyflwynwyd, ynghyd â'r dyddiad y'i cyflwynwyd, ac enw ac unrhyw fanylion perthnasol eraill yr unigolyn y cyflwynwyd y cynnig iddynt. Byddai dull diogelu ychwanegol yn cael ei ddarparu trwy gofrestru'r cynnig gyda chynrychiolydd cyfreithiol neu gynrychiolydd annibynnol arall adeg ei gyflwyno.

2.3 Cydnabyddir y bydd cynigion tebyg, ac ar adegau, cynigion sy'n union yr un fath yn cael eu cyflwyno gan wahanol unigolion neu gwmnïau, ac ar yr un pryd weithiau. Dylid ceisio sicrhau, gymaint ag y bo hynny'n ymarferol, bod cynigion yn cael eu cyflwyno gan nodi cymaint o fanylder ag y bo modd ym mhob achos er mwyn gallu gwahaniaethu rhyngddynt a chynigion eraill a gyflwynwyd, er mwyn gallu eu hasesu mewn ffordd briodol ac er mwyn eu trin yn deg.

Rhwymedigaethau'r rhai sy'n cael cynigion

3.1 Bydd y rhai sy'n mabwysiadu'r Cod ac sy'n cael cynigion, yn ymrwmo i'r canlynol:

3.1.1 Mabwysiadu a chynnal gweithdrefnau mewnol sy'n sicrhau cyfrinachedd priodol wrth i'r cynnig gael ei gyflwyno, gymaint ag y bo modd mewn ffordd resymol. Cydnabyddir y bydd angen copïo cynigion o fewn sefydliad a'u dosbarthu i'r rhai sy'n gyfrifol am gymeradwyo neu gomisiynu cynigion efallai. Mae gweithgarwch dosbarthu cyfrinachol o'r fath yn dderbyniol oni bai bod y person sy'n cyflwyno'r cynnig yn pennu unrhyw gyfyngiad ar y sawl sy'n gallu gweld y cynnig, a bydd hyn yn rhwym i gytundeb y parti sy'n cael y cynnig, Ni cheir trosglwyddo'r cynnig na gwneud copi ohono ar gyfer unigolion eraill ac eithrio er mwyn eu galluogi i ystyried y cynnig hwnnw.

3.1.2 Mabwysiadu a chynnal gweithdrefnau mewnol er mwyn cofnodi cynigion. Dylai'r broses gofnodi gynnwys cyfeiriad at deitl y cynnig, y dyddiad y'i cafwyd, manylion yr anfonwr a, phan fo hynny'n briodol, disgrifiad byr o'r cynnig.

3.2 Yn ddelfrydol, dylid ymateb i'r cynnig, naill ai er mwyn ei wrthod neu er mwyn cyfleu diddordeb ynddo, yn ysgrifenedig (er bod ei gyfleu mewn neges e-bost yn dderbyniol) cyn pen cyfnod rhesymol ar ôl ei gael ac yn unol ag unrhyw amserlen a gyhoeddir o bryd i'w gilydd gan ddarlledwyr, cwmnïau ffilm a chwmnïau cynhyrchu unigol. Pan gyflwynir cynnig er mwyn ymateb i wahoddiad i dendro penodol, bydd unrhyw benderfyniad mewn perthynas â'r cynnig hwnnw yn cael ei wneud mewn ffordd deg, yn unol ag unrhyw feini prawf tendro a gyhoeddwyd, a bydd unrhyw ymateb yn cael ei roi yn unol â'r amserlen a gyhoeddwyd (os oes un).

3.3 Pan wrthodir cynnig, o gael cais, bydd y derbynnydd yn gwneud pob ymdrech resymol i ddychwelyd unrhyw ddeunydd gwreiddiol neu ddeunydd arall nad yw'n ddeunydd digidol, a gyflwynwyd i'w ystyried. Bydd y sawl sy'n dymuno i'r cynnig gael ei ddychwelyd, yn gyfrifol am dalu'r gost o ddychwelyd cynnig.

Cynigion mewnol

4.1 Pan fydd darlledwr neu gwmni ffilm neu gwmni cynhyrchu teledu neu radio yn llunio'i gynigion ei hun, rhaid iddo sicrhau bod gweithdrefnau mewnol yn cael eu pennu sy'n gwahaniaethu rhwng cynigion a gyflwynwyd gan ffynhonnell fewnol neu allanol.

Datblygu cynnig

5.1 Pan fydd cynnig yn destun gwaith datblygu pellach, neu pan fydd yn cael ei gomisiynu er mwyn creu ffilm neu raglen, bydd y partiön yn cytuno ar amodau cytundebol a masnachol penodol, a ddylai roi sylw i berchnogaeth unrhyw eiddo deallusol yn y cynnig ac yn y ffilm neu'r rhaglen ddilynol, ymhlith pethau eraill. Ar ôl ffurfio perthynas gytundebol, bydd y Cod yn cael ei ddisodli gan amodau perthnasol y contract.

Gweithdrefnau i'w dilyn yn ystod anghydfod

6.1 Un o amcanion allweddol y Cod yw lleihau'r tebygolrwydd y bydd anghydfodau'n codi ynghylch perchnogaeth a datblygiad unrhyw gynnig am ffilmiau neu raglenni.

6.2 Fel rhan o'u gweithdrefn er mwyn delio ag anghydfodau, bydd gan bob sefydliad cyfrannog fecanwaith er mwyn penodi unigolyn uwch o fewn eu sefydliad er mwyn adolygu unrhyw gwynion a wneir ynghylch cynnig a gyflwynwyd, nad oes modd eu datrys.

6.3 Os bydd unrhyw un sy'n cyflwyno cynnig yn dymuno gwneud cwyn ynghylch achos

anawdurdodedig o ddefnyddio neu ddatblygu unrhyw gynnis neu unrhyw ran neu elfen sylweddol o'r cynnis hwnnw, dylid ei gyfleu i dderbynnydd y cynnis. Dylid nodi'r gŵyn yn ysgrifenedig, gan ddarparu unrhyw dystiolaeth atodol, gan gynnwys:

- Y dyddiad y cyflwynwyd y cynnis.
- Y sawl y cyflwynwyd y cynnis iddynt.
- Unrhyw ohebiaeth rhwng y partïon.
- Y sail dros wneud y gŵyn.

6.4 Dylai'r partïon wneud pob ymdrech resymol i ddatrys y gŵyn heb orfod ei chyfeirio ymlaen at unrhyw un arall.

6.5 Os na fydd modd datrys y mater, dylai'r person sy'n cyflwyno'r cynnis (naill ai'n uniongyrchol neu trwy gyfrwng cymdeithas gynrychioliadol neu undeb llafur) gysylltu â'r unigolyn a enwebwyd gan dderbynnydd y cynnis i adolygu'r gŵyn (gweler cymal 6.2). Bydd y person a enwebwyd yn cynnal adolygiad teg o'r gŵyn, ynghyd ag unrhyw dystiolaeth atodol, gan ddarparu ymateb ysgrifenedig i'r gŵyn.

6.6 Os na fydd unigolyn yn aelod o gymdeithas gynrychioliadol, undeb llafur neu sefydliad arall, bydd modd iddynt gysylltu â Chadeirydd APC er mwyn cael cyngor am weithdrefnau datrys anghydfodau perthnasol sefydliad y derbynnydd. Mae modd cysylltu â chadeirydd APC trwy anfon e-bost at Administrator@wftv.org.tv.

6.7 Mae'r weithdrefn hon yn annog pob cwynwr i geisio datrys unrhyw gŵyn neu anghydfod fel y nodir uchod. Fodd bynnag, ni fydd unrhyw beth sy'n ymddangos yn y Cod yn effeithio ar neu'n cyfyngu ar hawliau cyfreithiol y partïon.

Adolygu

7.1 Bydd cynrychiolwyr y sefydliadau cyfrannog yn cyfarfod o bryd i'w gilydd er mwyn adolygu ac asesu gweithrediad ymarferol y Cod, ac er mwyn ystyried unrhyw ddiwygiadau i'r Cod.

Gan ddiolch i'r holl sefydliadau cyfannol, y maent wedi cefnogi egwyddorion Cod Ymarfer APC, a'r unigolion sydd wedi neilltuo'u hamser personol, eu hystyriaethau a'u harbenigedd er mwyn sicrhau bod modd ei gyhoeddi.

apc

THE ALLIANCE FOR THE
PROTECTION OF COPYRIGHT